



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Lesley Griffiths AC
Y Gweinidog Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL
08442 640670
gofyn@olderpeoplewales.com

12 Gorffennaf 2011

Annwyl Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,

**Adolygiad Ysbytai Gofal gydag Urddas: adborth a Hysbysiad
Ysgrifenedig yn gofyn am ragor o wybodaeth erbyn 15 Awst 2011**

Hoffwn ddiolch i chi am ymateb yn brydlon i'm Hadolygiad 'Gofal gydag Urddas? Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru'. Rwy'n gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech sydd wedi'u neilltuo i lunio ymateb i'r argymhellion yn Adroddiad yr Adolygiad. Calondid i mi oedd yr ymatebion addawol a gawsom ac rwy'n teimlo eu bod yn dangos gwir awydd i wella profiad pobl hŷn yn yr ysbyty.

Pan anfonais gopiâu o'r Adroddiad ar yr Adolygiad, gofynnais i Lywodraeth Cymru ymateb i bump o'r argymhellion, i amlinellu sut y bydden nhw'n cydymffurfio â nhw. Os byddai'r Llywodraeth yn penderfynu peidio â chymryd camau mewn ymateb i'r argymhellion, roeddwn yn gofyn am esboniad dros beidio â chymryd camau.

Ers i ymateb Llywodraeth Cymru ddod i law, mae fy nhîm a mi wedi asesu'r ymateb yn drylwyr. Rydyn ni wedi cael cymorth hefyd gan banel o gynghorwyr y mae eu henwau wedi'u rhestru ar ein gwefan. Mae Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2007 yn datgan bod rhaid i'r wybodaeth a roddir imi gan Lywodraeth Cymru fod yn ddigon imi benderfynu a gydymffurfir â'm hargymhellion i neu beidio, neu roi digon o esboniad pam na chydymffurfir ag argymhelliad.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn caniatáu imi anfon Hysbysiad Ysgrifenedig i ofyn am ragor o wybodaeth gan y cyrff hynny sydd heb fy narbwylllo eto y bydd fy argymhellion yn cael eu dilyn. Rwy'n croesawu'r ffaith bod y Llywodraeth yn cydnabod y materion ac rwy'n croesawu hefyd y gwaith sydd wedi'i wneud i roi sylw i'r materion hyn. Calondid arbennig i mi oedd yr argymhellion a wnaed gan y 'Grŵp Cyfeirio Arbenigol Urddas mewn Gofal', er fy mod yn sylweddoli mai mewn egwyddor yn unig y mae'r rhain wedi'u derbyn gan y Llywodraeth ar hyn o bryd.

Rwy'n fodlon ar yr ymateb i Argymhelliad 2 ynghylch gofal dementia ac Argymhelliad 12 ynghylch hyfforddiant a sgiliau. Mae arna i angen rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r tri argymhelliad arall i'm sicrhau'n llawn y bydd buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hybu mewn ysbytai yng Nghymru. Felly, yn unol â'r Rheoliadau, mae'r llythyr hwn yn Hysbysiad Ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru i ofyn am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r argymhellion a amlinellir yn y tabl isod. Byddwch cystal â rhoi'r wybodaeth hon erbyn **dydd Llun 15 Awst am 5pm fan bellaf**.

Mae'n ofynnol imi gadw cofrestr, sydd ar gael i'r cyhoedd, yn cynnwys manylion yr argymhellion a chanlyniad unrhyw gamau pellach yr ydw i wedi'u cymryd, megis rhoi Hysbysiad Ysgrifenedig i gorff penodol. Bydd y gofrestr ar ein gwefan ynghyd â'r ymateb a anfonwyd gan Lywodraeth Cymru a'r llythyr hwn. Bydd y gofrestr ar gael ar bapur hefyd os gwneir cais amdano.

Pan fyddaf yn fodlon bod gen i'r cyfan o'r wybodaeth angenrheidiol, bydd fy nhîm a mi'n gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod yr argymhellion yn dod yn realiti ymarferol sydd o les i bobl hŷn yng Nghymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rhan hon o'r broses, mae croeso ichi gysylltu ag Anna Buchanan ar 02920 445034 neu anna.buchanan@olderpeoplewales.com.

Yn gywir,



Ruth Marks
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Yr ymatebion y gofynnir am ragor o wybodaeth yn eu cylch

Yr argymhelliad	Yr adborth a'r wybodaeth y gofynnir amdani
	Ewch yn ôl at Argymhellion yr Adroddiad a thestun llawn yr Adroddiad i gael arweiniad ar eich ymateb
Argymhelliad 7 Lefelau staffio	Rhowch ragor o wybodaeth i ymdrin â'r canlynol: <ul style="list-style-type: none">A gaiff argymhellion y Grŵp Cyfeirio Arbenigol eu mabwysiadu'n ymarferol
Argymhelliad 10	Rhowch y canlynol:

<p>Profiad cleifion</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrwydd y caiff argymhellion y Grŵp Cyfeirio Arbenigol eu mabwysiadu'n ymarferol • Sicrwydd y caiff data ansoddol ei gasglu a'i rannu • Sicrwydd y bydd y dull yn casglu ac yn gweithredu ar brofiadau cleifion hŷn sy'n methu siarad drostyn nhw eu hunain • Gwybodaeth am fanteision 'persona'r rhith-glaf' mewn lleoliad i gleifion mewnol
<p>Argymhelliad 11</p> <p>Rhannu arferion da</p>	<p>Rhowch ragor o wybodaeth i ymdrin â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sut y bydd y Llywodraeth yn sicrhau arfarniad cadarn, annibynnol ar fodelau o arferion da er mwyn sicrhau newidiadau pendant yng ngofal pobl hŷn • Yr hyn y bydd y Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau y caiff arferion da eu mabwysiadu ledled Cymru • Sut y bydd y Llywodraeth yn dwyn Byrddau lechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre i gyfrif am eu llwyddiant wrth fabwysiadu arferion da sy'n gwella gofal gydag urddas, neu wrth gyfiawnhau pam nad ydyn nhw wedi'u mabwysiadu